# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 11.12.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Lesley Day, Tom Ellis, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Linda A.W.Jones Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Gareth Thomas,

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Swyddogion:** Geraint George, (Pennaeth Adran Strategol a Gwella), Gareth James, (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Carey Cartwright, (Rheolwr Dysgu a Datblygu), ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies a Mandy Williams-Davies. Yn ogystal, derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**Croeso:** Estynnwyd croeso i Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella) yn dilyn ei anhwylder diweddar.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2012 fel rhai cywir.

## 3. HYFFORDDIANT AELODAU

i) Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd yr Is-grŵp hyfforddiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

ii) Yn sgil gwaith a wnaed gan yr Is-grŵp hyd yma, rhestrwyd meini prawf a chamau a ellid eu cymryd wrth asesu a sicrhau tegwch wrth ystyried ceisiadau aelodau i fynychu 'cyrsiau ychwanegol' sydd tu allan i fframwaith ddatblygu aelodau.

iii) Mynegwyd barn gan aelodau'r Pwyllgor, a nodwyd

a) mai'r Rheolau Sefydlog ddylai fod ar flaen rhaglen hyfforddi;

b) bod rhai cyrff allanol yn darparu hyfforddiant eu hunain ac na fydd angen trefniant hyfforddi o ran y Cyngor mewn achosion o'r fath;

c) bod angen ystyried cynnal cyrsiau mewn man canolog, megis Penrhyndeudraeth ar adegau pan mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt;

ch) ar y llaw arall nodwyd bod rhai'n wynebu trafferthion teithio ac na fyddai Penrhyndeudraeth yn gyfleus iddynt;

d) bod modd cael llawer o hyfforddiant ar lein neu ddulliau amgen eraill.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Mabwysiadu'r meini prawf canlynol :**

Dylai'r aelod etholedig ddal swydd neu gyfrifoldeb yn y maes ar ran y Cyngor a ddylai fedru dangos bod mynychu'r "cwrs ychwanegol" yn ei (g)alluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau yn well.

Gall y swydd neu gyfrifoldeb hynny fod fel:-

- Cadeirydd neu Is-gadeirydd Craffu,
- Aelod Cabinet
- Pencampwr
- Aelod o'r Pwyllgor Pensiynau
- Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw bwyllgor arall.
- Cynrychioli Gwynedd fel Aelod o gorff allanol
- Aelod etholedig unigol sy'n rhan o Ymchwiliad Craffu, lle y byddai mynychu'r cwrs yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Ymchwiliad Craffu.

*(DS. Bydd unrhyw ymweliadau gan sawl aelod fel rhan o Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried fel rhan o waith yr ymchwiliad ac nid fel "cwrs")*

- Ni ddylai'r "cwrs ychwanegol" fod ar gael o fewn y Rhaglen Hyfforddiant Aelodau Etholedig neu fod modd ei drefnu mewn ffordd wahanol ar gyfer criw o aelodau yn fewnol er mwyn lleihau'r gost.
- Dylid ystyried a yw'r cwrs yn cynnig gwerth am arian, hynny yw, fod cost y cwrs yn faen prawf.
- Dylid ceisio osgoi teithio drwy drefnu, os yn bosib, i gymryd rhan neu wrando ar y "cwrs ychwanegol" drwy ddulliau amgen ee webinar / fideo gynhadledd
- Anelu at uchafswm o 2 "gwrs ychwanegol" fesul aelod ym mhob blwyddyn
- Rhaid ystyried perthnasedd y cwrs i raglen ddatblygu bersonol yr aelod etholedig.

**b) Mabwysiadu'r camau gweithredu isod ar gyfer gweithredu'r meini prawf:**

- Dylai aelod gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig (ar lythyr neu e-bost) gan esbonio sut y maent yn cyrraedd y meini prawf
- Dylid sicrhau fod gan yr aelod eilydd i'r cais, ee Cadeirydd neu Is-gadeirydd pwyllgor penodol yn cefnogi cais gan aelod unigol yn rhinwedd ei rôl.

- Dylid cyflwyno'r cais o leiaf bythefnos rhag blaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn penderfynu ar y cais neu beidio,
- Yr uchod i asesu y cais yn erbyn y meini prawf a gadael i'r aelod wybod y canlyniad. Dylid hefyd sicrhau fod trefniadau adrodd nôl a chrynhoi/ rhannu'r wybodaeth ychwanegol yn glir (Bydd hwn yn amrywio fesul cais/ maes).

**c) Nodi bod hyfforddiant i gadeiryddion ac is-gadeiryddion yn rhan o'r Rhaglen Graidd ac mai'r bwriad yw ail ymweld â'r Rhaglen Graidd yn flynyddol.**

**ch) Bod eitem yn cael ei gosod ar raglen y cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r 'Pencampwyr.'**

Yn dilyn y drafodaeth cyflwynwyd gwybodaeth gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu ynglŷn â:

i) Cynllun i ddatblygu safle e-ddysgu ar gyfer holl aelodau awdurdodau lleol Cymru. Nododd y gallasai hyn fod o fudd i'r Cyngor ac y gallasai Gwynedd arwain mewn perthynas â deunyddiau Cymraeg. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Cyngor Gwynedd gefnogi'r fenter genedlaethol.

ii) Hyfforddiant MSc Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael ei redeg yn genedlaethol drwy Brifysgol Morgannwg. Ar hyn o bryd, 'roedd am godi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant safon uwch sy'n cael ei drefnu.
Cytunwyd y dylid cefnogi'r fenter, ac oherwydd y costau a'r nifer cyfyngedig o lefydd, fod angen ystyried dull ar gyfer enwebu aelodau.

**4. ADRODDIADAU AELODAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gan y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu.

b) Ymhelaethwyd ar Fesur Llywodraeth Cymru (2011) sy'n nodi'r angen i bob awdurdod lleol wneud trefniadau a chreu cyfle i bob aelod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r unigolyn fel aelod o'r awdurdod.

c) Fel enghraifft, cyflwynwyd templed sy'n cael ei ddefnyddio gan awdurdod Penybont - ar- Ogwr yn dilyn cryn waith ymchwil.

ch) Esboniwyd mai pwrpas y Mesur yw galluogi aelodau o'r cyhoedd i gael gwybodaeth ynglŷn â gweithgarwch eu cynghorwyr.
Ychwanegwyd mai gwybodaeth ffeithiol fyddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiadau blynyddol ac y byddai'r rhain yn cael eu monitro gyda chefnogaeth ar gael i'r aelodau yn unol â'r canllawiau.

d) Mynegwyd barn wahanol gan aelodau wrth ystyriwyd dulliau posib o lunio templed derbyniol ac adroddiadau teg

dd) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd mai rôl y Pwyllgor hwn oedd gweithio er mwyn bod yn gyfforddus hefo'r egwyddor ac yna darparu trefn a ellir ei hargymell i'r Cyngor llawn, ac yna bydd yn bosib gweithredu.

**PENDERFYNWYD:**
**a) bod nifer o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor hwn, Cadeirydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet - Gofal Cwsmer, yn cyfarfod ar gyfer llunio enghraifft o dempled a ellid ei defnyddio ar gyfer yr adroddiadau blynyddol yng Ngwynedd;**

**b) bod y templed cychwynnol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar gyfer ei ystyried ymhellach.**

## 5. TECHNOLEG GWYBODAETH

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a chyfeiriodd at nifer yr aelodau sydd bellach wedi derbyn cyfarpar TG electroneg personol.

b) Mynegwyd barn gan aelodau a nodwyd :

- bod angen gwybodaeth fanwl ynglŷn â maint neges, sef uchafswm o 2MB, oherwydd bod trafferthion yn codi mewn rhai ardaloedd a'r amser mae'n ei gymryd i anfon negeseuon.
- y gellid cynnig cymorth i rai gael offer angenrheidiol i oresgyn y broblem uchod;
- bod rhai yn dymuno cael ychwaneg o hyfforddiant a meddalwedd fel y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cyfarpar;
- na ddylid enwi'r aelodau sy'n dewis peidio derbyn y cyfarpar;
- y dylai Cynghorwyr allu cael mynediad rhwydd i'w negeseuon e-bost ac osgoi trafferthion pan mae'r negeseuon yn cael eu trosglwyddo i 'archifdy';
- bod y Cyngor bellach wedi dod i'r fan lle mae angen gwneud budd o'r cynllun a sicrhau bod costau postio a phapur yn gostwng.

c) Nododd rhai aelodau eu parodrwydd i weithredu'n ddi-bapur ac y gallasai hynny fod yn fan cychwyn ar gyfer sicrhau arbediad. Yn sgil hyn, awgrymwyd y gallai swyddogion rifo paragraffau, yn hytrach na thudalennau, wrth lunio adroddiadau.

Nododd yr Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer bod y galw am hyfforddiant yn amlwg ac y dylai aelodau nodi pa fath o hyfforddiant fyddai'n fuddiol iddynt. Nododd ymhellach y gellid manteisio drwy roi hyfforddiant llawn i swyddogion.

**PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo :**

- **fod pob gohebiaeth, (lle'n bosib), a phob cais cyfarfod yn cael ei yrru i'r aelodau i gyd drwy ffurf electroneg yn unig, gyda'r gweddill i dderbyn copïau caled;**

- **fod nodyn i gael ei yrru at swyddogion o fewn y Cyngor ynghylch yr uchod yn unol â'r canlynol:**
    1. **Darpariaeth electroneg i 66 aelod;**
    2. **Darpariaeth papur i 9 aelod;**
    3. **Atgoffa ei bod yn ofynnol i ohebiaeth fod ar ffurf pdf;**
    4. **Atgoffa am uchafswm maint neges o 2MB**
    5. **Wrth drefnu cyfarfodydd, sicrhau fod y ddarpariaeth wi-fi yno, neu nodyn atgoffa i aelod agor dogfennau cyn y cyfarfod lle nad oes darpariaeth yno.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.45am.